Cartref i'r digartref

(caredigrwydd / gosod esiampl / gweledigaeth)

Rhwng 1965 a 1980 roedd Gerard Poirier wedi codi busnes llewyrchus yn Llydaw. Busnes ceir oedd hwn a byddai pobl o bob rhan o Lydaw a Ffrainc yn tyrru i weld a phrynu y ceir Simca-Chrysler. Dyn gonest iawn oedd Poirier a byddai'n trin ei gwsmeriaid yn onest bob amser. Byddai'n gweithio oriau maith bob dydd, gan godi'n blygeiniol a noswylio pan fyddai'r cwsmer olaf yn gadael a hynny weithiau ym mherfeddion nos. Ond yn raddol torrodd ei iechyd.

Doedd dim amdani ond gwerthu'r busnes yn Llydaw a mynd i fyw i hinsawdd gynhesach yn ne-orllewin Ffrainc. Ar ôl ychydig fisoedd yn y rhan gynhesach yma o Ffrainc teimlai ei fod yn cryfhau o ddydd i ddydd. Penderfynodd ei fod am agor canolfan gwerthu tai a fflatiau. Un diwrnod, daeth hen wraig gefnog, Madame Roumange, i'r ganolfan.

"Bore da," meddai mewn llais urddasol.

"Bore da," cyfarchodd Poirier hi'n ôl, "a beth alla i wneud i chi, Madame?"

"Mae hi'n stori hir," meddai hithau, "ond fel dyn busnes rwy'n siŵr nad oes gynnoch chi amser i wrando felly mi wna i geisio bod yn fyr. Mae gen i floc o fflatiau draw yn y pentref acw. Roeddwn wedi meddwl eu rhoi yn fy ewyllys i'm mab. Ond rydw i wedi ffraeo efo fo am ysgaru oddi wrth ei wraig. Roedd gen i feddwl y byd o'm merch-yng-nghyfraith. Felly, rydw i'n awyddus iawn i'w gwerthu. Fyddai gennych chi ddiddordeb?"

Rhwbiodd Poirier ei ddwylo. Ymhen chwe mis roedd wedi prynu'r bloc o fflatiau. Un noson meddai wrth ei wraig. "Rwyf am atgyweirio'r fflatiau fesul un ac yna eu gosod i ddynion yn yr ardal sy'n byw ar y stryd. Rwy'n siŵr y byddan nhw'n falch o le i orffwys a chysgu," meddai. Cytunodd ei wraig ag ef. Credai ei fod yn syniad ardderchog. "Pryd wyt ti am ddechrau'r gwaith adnewyddu?" gofynnodd iddo.

"Yfory," meddai. Ac yn wir, am wyth o'r gloch, roedd yr adeiladwyr wedi cyrraedd i ddechrau adnewyddu ac atgyweirio'r fflatiau. Ond doedd e ddim yn waith hawdd. Roedd Madame Roumange wedi gadael i'r adeilad fynd â'i ben iddo. Bob dydd byddai'r adeiladwyr yn dod ar draws pob math o broblemau.

"Bydd yn rhaid i ni ail-doi'r adeilad cyfan," oedd y stori un bore.

"Dydi'r gwaith trydan ddim yn saff o gwbl. Bydd yn rhaid ailweirio'r adeilad i gyd er mwyn gwneud pob fflat yn saff."

"Mae'r pibellau dŵr yn hen iawn. Bydd yn rhaid i ni roi pibellau dŵr newydd ymhob rhan o'r adeilad."

Dyma fyddai'r sgwrs bob dydd a byddai rhywbeth newydd yn codi'i ben yn aml. Ond roedd Poirier a'i wraig yn benderfynol o ddal ati i adnewyddu'r adeilad i gyd.

Aeth misoedd heibio ac yna, ym mhen y flwyddyn, roedd yr adeilad ar ei newydd wedd. Roedd y si wedi mynd drwy'r ardal mai fflatiau ar gyfer pobl y stryd oedd y rhain. O un i un dyna lle roedden nhw'n dod i holi am fflatiau. Agorodd Poirier a'i wraig ddrysau'r fflatiau fesul un ond hefyd roedden nhw'n barod i agor eu calonnau i drigolion y gwter. Does dim enw ar y tŷ ond mae'n ganolfan gynnes i sawl un.

Adnod: "Clywsoch fel y dywedwyd, 'Câr dy gymydog, a chasâ dy elyn.' "Ond rwyf fi'n dweud wrthych: cerwch eich gelynion . . ." Mathew 5:43

Gweddi: Boed i Dduw eich gwneud yn anghyfforddus ag atebion syml a'ch gwneud yn barod i wynebu problemau eich cymdeithas. Amen.

Trafod:

- A fyddech chi'n dweud fod Poirier yn gallu "fforddio" adnewyddu'r adeilad gan ei fod wedi gwneud ei ffortiwn yn Llydaw?
- Cyfrifoldeb pwy yw 'pobl y stryd'?